AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Gwanwyn 2024 - Rhifyn 25

# Cylchlythyr y Gwanwyn AWTTC

**Diweddariad chwarterol ar y newyddion, cyhoeddiadau ac adnoddau diweddaraf.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Newyddion Hydref - Rhagfyr 2023 ynghylch:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR.
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Prif Weithredwr BIP Caerdydd a'r Fro yn ymweld â swyddfeydd AWTTC

Roedd yn bleser gennym groesawu Suzanne Rankin, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i'n swyddfeydd yng Nghanolfan Academaidd Routledge i gael gwybod am y gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi rhagnodi diogel ac effeithiol yng Nghymru. Recordiwyd yr ymweliad mewn dwy ran - y rhan gyntaf oedd trafodaeth bord gron lle dysgodd Suzanne fwy am ein gwaith yn cefnogi mynediad at feddyginiaethau, optimeiddio meddyginiaethau a diogelwch meddyginiaethau. Mae'r ail ran yn dangos Suzanne yn mynd ar daith o amgylch y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (Caerdydd) ac yn siarad â staff sy'n cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled y Deyrnas Unedig (a thu allan i oriau yn Iwerddon) i roi cyngor ar reoli gwenwyno.




*Ruth Lang, Uwch Reolwr Cyswllt yn AWTTC, yr Athro James Coulson, Cyfarwyddwr Clinigol AWTTC, Suzanne Rankin Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Andrew Champion, Cyfarwyddwr Rhaglen AWTTC*

Gwyliwch yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diwrnod Clefydau Prin

Roedd AWTTC ac AWMSG yn falch iawn o ymuno â Genetic Alliance UK a rhanddeiliaid o bob rhan o'r gymuned clefydau prin yn y Derbyniad Blynyddol ym Mae Caerdydd i ddathlu #DiwrnodClefydauPrin sy'n ddigwyddiad blynyddol rhyngwladol pwysig i godi ymwybyddiaeth o heriau byw gyda chyflwr prin a gwthio am newid parhaol i wella bywydau 300 miliwn o bobl y mae cyflwr prin yn effeithio arnynt yn fyd-eang.




AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Newyddion diweddaraf gan Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG

Diabetes math 2 oedd thema cyfarfod rhithwir cyntaf y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) yn 2024. Dywedodd pedwar cyflwynydd rhagorol, pob un ohonynt yn arbenigwyr blaenllaw yn eu maes, beth sy'n cael ei wneud yng Nghymru i atal a rheoli'r cyflwr hwn.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Cynnal sesiwn Dysgu dros Ginio lwyddiannus arall

Cynhaliwyd sesiwn Dysgu dros Ginio 1 awr ar-lein ar 8 Chwefror gyda sgyrsiau yn cynnwys 'Rôl therapi hormonau mewn gofal sy'n cadarnhau rhywedd' ac 'Urine good hands: Awgrymiadau Ymarfer Cyffredinol UTI'.

Cynhelir y digwyddiad Dysgu dros Ginio nesaf ar 21 Mai lle gallwch ddarganfod sut y gallwn 'Gydweithio i optimeiddio'r defnydd o gyffuriau gwrthseicotig mewn dementia' a pha adnoddau sydd ar gael ar gyfer 'Optimeiddio'r defnydd o feddyginiaeth mewn cartrefi gofal'. Cofrestrwch i fynychu yma.

Recordiadau ar gael yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## 'Protocol Cymru Gyfan ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthseicotig yn briodol i bobl sy'n byw gyda dementia' wedi'i gyhoeddi

Nod yr adnodd hwn yw arwain arferion gorau wrth gychwyn; monitro; adolygu; lleihau a stopio cyffuriau gwrthseicotig lle cânt eu rhagnodi ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, sy'n mynegi gofid.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## ‘Canllawiau rheoli a phresgripsiynu asthma oedolion Cymru gyfan’ newydd wedi’u cyhoeddi

Mae’r canllawiau hyn wedi’u diweddaru i gysoni’r canllawiau ag argymhellion eraill a gydnabyddir yn genedlaethol, ac mae’n cynnwys ‘trefn a ffefrir’ newydd ar gyfer trin asthma ysgafn.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## ‘Polisi Cymru Gyfan ar Weinyddu, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaethau (MARRS)’ newydd wedi’i gyhoeddi

Mae hwn yn fframwaith o safonau y mae’n rhaid i weithwyr gofal iechyd, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru eu rhoi ar waith drwy weithdrefnau lleol, ac mae’n sicrhau bod arferion yn cyd-fynd â newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a chanllawiau rheoli meddyginiaethau.

Darllenwch ragor yma

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mân ddiweddariadau i ‘Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol’ wedi’u cyhoeddi

Mae mân ddiweddariadau wedi’u gwneud drwy gydol y canllawiau yn dilyn rhybudd yr MHRA ar y defnydd o quinolone, ac mae newidiadau ychwanegol wedi’u gwneud i adrannau ar lid yr amrannau a llyngyr edau.

Darllenwch ragor yma

**Mae nifer o argymhellion Cymru’n Un wedi’u hadolygu’n ddiweddar ac mae canllawiau wedi’u diweddaru wedi’u cyhoeddi ar wefan AWTTC:**

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor interim Cymru’n Un: bevacizumab – adolygiad

Mae cyngor interim ar bevacizumab ar gyfer trin cleifion sy’n oedolion sydd â chanser epithelaidd datblygedig yr ofari, y tiwb ffalopaidd, neu ganser peritoneol sylfaenol sy’n wynebu risg uchel o’r clefyd yn gwaethygu wedi’i adolygu gan Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru’n Un a’i gefnogi gan AWMSG.

Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor interim Cymru’n Un: bendamustine a rituximab – adolygiad

Gall bendamustine ar y cyd â rituximab fod ar gael yn GIG Cymru ar gyfer trin lymffoma celloedd mantle atglafychol ac sydd heb ei drin yn flaenorol, mewn cleifion yr ystyrir ar hyn o bryd eu bod yn anaddas ar gyfer therapi seiliedig ar anthracycline neu gynlluniau triniaeth eraill sydd wedi’u cymeradwyo gan arfarniadau technoleg iechyd.

Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor interim Cymru'n Un: bendamustine a rituximab – adolygiad

Gall bendamustine ar y cyd â rituximab fod ar gael o fewn GIG Cymru ar gyfer trin lymffoma ffoliglaidd atglafychol ac sydd heb ei drin yn flaenorol, lymffoma parth ymylol a macroglobwlinemia Waldenstrom o dan amgylchiadau penodol.

Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor interim Cymru'n Un: rituximab – adolygiad

Gan ddefnyddio'r meini prawf cychwyn a stopio y cytunwyd arnynt, gellir sicrhau bod rituximab ar gael o fewn GIG Cymru ar gyfer triniaeth ail neu drydedd llinell ar gyfer clefyd interstitaidd ffibrotig yr ysgyfaint (nid ffibrosis idiopathig yr ysgyfaint) sy'n gysylltiedig â chlefyd meinwe gyswllt neu niwmonia interstitaidd amnhenodol ffibrotig idiopathig.

Darllenwch ragor yma

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Ymddeoliad Sue

Ym mis Mawrth fe wnaethom ffarwelio ag un o'n haelodau staff hirsefydlog Sue Cervetto wrth iddi ymddeol o AWTTC ar ôl 17 mlynedd o wasanaeth. Penodwyd Sue yn Uwch Fferyllydd Arfarnu yn 2007 ac mae wedi ymwneud â llawer o brosiectau pwysig, gan gynnwys y cais am achrediad NICE a ddyfarnwyd i AWMSG yn 2011 i gydnabod ansawdd uchel proses arfarnu technoleg iechyd AWMSG.

Dechreuodd Sue ei gyrfa gydag AWTTC, sef Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru gynt, ac mae wedi bod yn rhan enfawr o'r sefydliad. Bydd ei holl gydweithwyr yn gweld ei heisiau.



WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chyfnodau rhagnodi'.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2023–2024: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Medi 2023

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy'n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben ym mis Medi 2023, wedi'i gyhoeddi.

Darllenwch ragor yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Cyhoeddi dangosfyrddau SPIRA newydd

Mae'r dangosfyrddau monitro data canlynol wedi'u hychwanegu at SPIRA yn ddiweddar a gall defnyddwyr sydd ar rwydwaith GIG Cymru eu cyrchu:

- Effeithlonrwydd – Llygaid sych
- Effeithlonrwydd – Eli lleddfol bath a chawod
- Effeithlonrwydd – Eli lleddfol
- Effeithlonrwydd – Rhestr gyfyngedig

Cyrchwch y dangosfyrddau yma

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Cyhoeddiad WNPU – Gwenwyn paracetamol IV pediatrig anfwriadol

Llongyfarchiadau i gyfarwyddwr Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru, Dr. Laurence Gray. Mae ei bapur "Camgymeriadau meddyginiaeth gyda paracetamol mewnwythiennol mewn plant: profiad o ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau" (NPIS) wedi'i gyhoeddi'n llwyddiannus yng nghyfnodolyn BMJ "Archives of Disease in Childhood" ym mis Ionawr 2024.

Darllenwch ragor yma

Yellowcard Centre Wales

## Canolfan Cerdyn Melyn yn Addysgu Myfyrwyr

Dychwelodd YCC Cymru i Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd i addysgu myfyrwyr Fferylliaeth ynghylch adweithiau niweidiol i gyffuriau a rhoi gwybod amdanynt drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.

Rhoddwyd darlith i fyfyrwyr, gyda gweithdy i ddilyn, lle cawsant y dasg o nodi'r meddyginiaethau a amheuir mewn nifer o astudiaethau achos a phenderfynu a fydden nhw'n rhoi gwybod am yr adwaith gan ddefnyddio Cerdyn Melyn.

Yellowcard Centre Wales

## Gwyliwch fideo animeiddiedig Canolfan Cerdyn Melyn Cymru i ddarganfod beth sydd gan eu masgot Charlie i'w ddweud

Mae fideo animeiddiedig newydd Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru yn cynnwys eu masgot Charlie, sy'n esbonio pam a sut i roi gwybod am sgil-effaith a amheuir i feddyginiaeth neu broblem gyda dyfais feddygol.

Gallwch ei wylio yma

